

## Digwyddiad rhanddeiliaid Wylfa yn codi momentwm



Ffwrdd â ni! Let's go! Prif Swyddog Gweithredol Simon Roddy yn cychwyn y digwyddiad yn Wylfa i nodi llofnodi'r contract

Ym mis Mai, cynhaliodd Great British Energy – Nuclear (GBE-N) ddigwyddiad i randdeiliaid lleol ar Ynys Môn i nodi dechrau'r contract rhwng GBE-N a Rolls-Royce SMR.

Cafwyd areithiau gan Gyngor Sir Ynys Môn, Rolls-Royce SMR a GBE-N, a daeth cymuned, sefydliadau addysgol a chadwyn gyflenwi arfaethedig yr Ynys at ei gilydd ar gyfer prosiect Wylfa.

Mae ymgysylltiad ystyrlon a gonest gyda chymdogion ein prosiect yn rhan allweddol o gyflawniad llwyddiannus wrth i ni baratoi'r safle ar gyfer adweithyddion modiwlwr bach (SMRs) cyntaf y DU, ac mae'r digwyddiad hwn yn dynodi'r digwyddiad cyntaf o lawer a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

### Lansio ymgyrch enwi


Lansiodd GBE-N ymgyrch enwi hefyd ar gyfer eu gorsaf bŵer SMR blaenllaw. Mae'r ymgyrch, sy'n agored i holl breswylwyr Ynys Môn, yn agored tan 5pm dydd Llun 8fed Mehefin, gyda'r enw buddugol yn cael ei gyhoeddi'n fuan wedyn.

Dywedodd Prif Weithredwr GBE-N, Simon Roddy:

*“Dyma ddechrau degawdau o berthynas gyda phobl Ynys Môn, ac rwy'n credu ei bod ond yn briodol i ni ofyn iddyn nhw ein helpu i enwi'r orsaf bŵer, a fydd yn rhan o stori'r gymuned hon am genedlaethau i ddod.*

*“Mae Wylfa yn brosiect cyntaf o'i fath i'r DU, gyda manteision hirdymor yn lleol ac yn genedlaethol, ac yn GBE-N rydym o ddifrif ynglŷn â'i gyflawni'n ddiogel, yn gyfrifol, gyda'r gymuned yn ganolog iddo.*

*“Dyma ein cyfle i gyflawni cenhadaeth sy'n hollbwysig yn genedlaethol ac rydym yn teimlo'n gyffrous ac ymrwymedig i wneud hynny gyda'n gilydd.”*



[greatbritishenergynuclear.uk/nameyourpowerstation](https://greatbritishenergynuclear.uk/nameyourpowerstation)

## Rhagair gan ein Prif Swyddog Gweithredol Newydd

Ar ôl ymuno â thîm GBE-N ddechrau mis Mawrth, gallaf ddweud yn hyderus fy mod wedi mynd ati i weithredu ar unwaith! Er fy mod yn newydd i'r maes niwclear, rwyf wedi treulio'r rhan fwyaf o fy ngyrfa ym maes ynni, ac rwyf yn gyffrous i fod yn Brif Weithredwr newydd GBE-N ar gam sy'n wirioneddol allweddol i'r diwydiant hwn, ac yn wir i'r wlad.

Diogelwch ynni ar gyfer twf, dyna yw ein cenhadaeth sylfaenol. O fewn wythnosau i mi ddechrau yn fy swydd, cyrhaeddod ni garreg filltir arwyddocaol yn yr ymdrech honno, sef llofnodi ein contract gyda'r partner technoleg ar gyfer ein Prosiect Wylfa, Rolls-Royce SMR. Roedd hyn yn benllanw blynyddoedd o waith ar draws y llywodraeth, GBE-N a'r sector niwclear, ac rwy'n diolch i bawb a fu'n rhan o'r broses ddethol adweithydd modiwl bach (SMR), ac am ei rhedeg mor broffesiynol ac effeithlon.

Ein prif dasg yn awr yw llwyddo gyda Wylfa, ac ni ellir tanamcangyfrif difrifoldeb hynny. Y prosiect hwn yw'r pwynt ailodod i'r diwydiant niwclear yn dilyn adolygiad rheoliadol John Fingleton, gyda materion systemig yn cael eu datgloi, a'n galluogi i ddarparu'r unedau SMR cyntaf, a galluogi'r fflyd y tu hwnt iddynt. Rwy'n talu teyrnged i'n Prif Swyddog Gweithredol Gwen Parry-Jones, wrth iddi adael, am ei chyfraniad aruthrol i'n galluogi i gyrraedd ble'r ydym yn awr.

Mae'n anrhydedd i mi fod yn rhan o daith y sefydliad hwn, dyma ein moment ni, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phob un ohonoch.



Simon



## Cytundeb Cydweithredu yn gam arall ymlaen i Wylfa

Mae GBE-N a Chyngor Sir Ynys Môn wedi llofnodi Cytundeb Cydweithredu sy'n nodi sut y bydd y ddau sefydliad yn cydweithio i gefnogi'r gwaith o gyflawni adweithyddion modiwl bach cyntaf y DU yn Wylfa.

Bydd y cytundeb yn sicrhau partneriaeth agored, effeithlon, parchus a chadarnhaol a fydd yn ceisio cyflawni canlyniadau cadarnhaol i gymuned yr Ynys a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr un pryd.

## Cefnogi'r Genhedlaeth Nesaf

Roedd yn bleser gan GBE-N gymryd rhan y Ganolfan Asesu Graddedigion Niwclear, a gyflwynwyd gan Energus fel cam recriwtio olaf y cynllun Nuclear Graduates.

Roedd y digwyddiad hwn, a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr, yn gyfle i 157 o ymgeiswyr ar y rhestr fer o gronfa gychwynnol o dros 1,000 o ymgeiswyr, ddod ynghyd – pob un ohonynt yn ceisio sicrhau eu lle ar y rhaglen glodfawr hon.

Fel rhan o'r broses, bu aelodau o dîm GBE-N yn cynorthwyo gyda chyfweiliadau, gweithgareddau ac ymarferion grŵp i helpu i ddewis y graddedigion a fydd yn ymuno â'n carfan nesaf sy'n cael eu noddi gan GBE-N ym mis Medi. O aseswyr yn gwirfoddoli eu

hamser i raddedigion a'r tîm cyfathrebu yn dangos sut brofiad yw gweithio i GBE-N ar ein stondin, cafwyd egni a brwdfrydedd gwych ar hyd y diwrnod.



Tîm GBE-N yn hyrwyddo gyrfaedd mewn niwclear



Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, y Gwir Anrhydeddus Ed Miliband, ynghyd â graddedigion o GBE-N a Rolls-Royce SMR yn cyhoeddi llofnod y contract i adeiladu tri SMR yn Wylfa

## GBE-N yn llofnodi contractau gyda Rolls-Royce SMR

Ddydd Llun 13eg Ebrill cafwyd cyhoeddiad bod GBE-N wedi ymrwmo mewn contract gyda Rolls-Royce SMR i fod yn ddarparwr technoleg ar gyfer prosiect adweithydd modiwlwr bach (SMR) cyntaf y DU yn Wylfa. Bydd y contract yn ei gwneud yn ofynnol i Rolls-Royce SMR weithio gyda GBE-N i gyflawni yn erbyn cerrig milltir allweddol wrth iddynt ddechrau prosesau dylunio, ymgysylltiad rheoliadol a chynllunio safle penodol, cyn Penderfyniad Buddsoddi Terfynol yn y dyfodol.

Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn cefnogi tua 3,000 o swyddi ar y safle ar y cam adeiladu brig, a miloedd o swyddi pellach ar draws cadwyn gyflenwi'r DU, gan atgyfnerthu diogelwch ynni cenedlaethol a chefnogi twf economaidd hirdymor i gymunedau lleol.

I nodi'r achlysur, cynhaliwyd digwyddiad yn Rhif 11 Stryd Downing gydag areithiau gan y Canghellor Rachel Reeves a'r Ysgrifennydd Ynni Ed Miliband.

Dywedodd Simon Bowen, Cadeirydd Great British Energy - Nuclear: "Mae hyn yn foment aruthrol i raglen niwclear y DU, ein sefydliad, ac i'r diwydiant cyfan.

"Mae heddiw yn cynrychioli cydnabyddiaeth wirioneddol o'r ymdrechion a wnaed ar draws GBE-N, Rolls-Royce SMR a'r Llywodraeth y DU i gyrraedd y pwynt hwn, ac rwy'n falch iawn o'r tîm am gyrraedd y garreg filltir bwysig hon."

Ychwanegodd Simon Roddy, Prif Swyddog Gweithredol Great British Energy - Nuclear: "Mae'r cytundeb hwn yn gam pwysig i'r diwydiant niwclear. Drwy weithio gyda Rolls-Royce SMR, rydym yn cyflwyno buddsoddiad hirdymor arwyddocaol i gadwyn gyflenwi ddiwydiannol y DU.

"Mae cefnogi sgiliau, arloesedd a datblygu ein gallu diwydiannol yn allweddol i'r bartneriaeth hon, a bydd yn sicrhau bod y DU mewn sefyllfa dda i gyflawni'r genhedlaeth nesaf o seilwaith niwclear."



Chwith: Prif Swyddogion Gweithredol GBE-N ac RR SMR yn y drefn honno, Simon Roddy a Chris Cholerton yn llofnodi'r contract, ynghyd â Chadeirydd GBE-N, Simon Bowen (chwith) a Phrif Swyddog Gweithredol Grŵp Rolls-Royce, Tufan Erginbilgic (dde), gyda'r Gwir Anrhydeddus Ed Miliband AS, a'r Gwir Anrhydeddus Rachel Reeves AS, Canghellor y Trysorlys. Dde: Y Prif Swyddog Gweithredol Simon Roddy a'r Cadeirydd Simon Bowen ar eu ffordd i Downing Street yng nghwmni Graddedigion Niwclear a noddir gan GBE-N, Ellie Wilson, Emily Tebbutt, Demay Banks, a Sulaiman Mohammed

# Brathiad cyntaf o *Fission Chips*, wrth i'r podlediad gychwyn

Yn Ebrill, bûm yn ffilmio tair pennod gyntaf *Fission Chips*, ein hymgyrch newydd ar y cyfryngau cymdeithasol a grëwyd gyda Young Generation Network (Rhwydwaith y Genhedlaeth Ifanc, YGN) y Nuclear Institute. Daeth GBE-N yn bartner cwmni i YGN y llynedd, ac mae'r prosiect hwn yn dynodi canlyniad mawr cyntaf y bartneriaeth honno.

Cafodd y penodau eu ffilmio yn Warrington yn *New Cod on the Block*.

Mae *Fission Chips* yn gyfres lle mae gweithwyr proffesiynol newydd i'r diwydiant niwclear yn eistedd i lawr gyda ffigurau blaenllaw o'r sector mewn siop pysgod a sglodion leol. Y nod yw creu lleoliad anffurfiol sy'n gwneud i sgysiau am ynni niwclear deimlo'n agored a hamddenol. Dyluniwyd yr ymgyrch ar gyfer pobl 16 i 25 oed a'i ddiben yw esbonio'r diwydiant niwclear, pwysleisio llwybrau gyrfa gwirioneddol, datblygu cefnogaeth ehangach ar gyfer y sector a helpu pobl ifanc i ddeall swyddogaeth ynni niwclear yn nyfodol y DU.

Ein gwestai cyntaf oedd Elliot Andrews, Prentis Gradd Peirianneg Fecanyddol o Sellafield, a fu'n siarad am brofiadau dechrau ei yrfa a'i lwybr i mewn i'r diwydiant. Mae'r ail bennod yn cynnwys Adrian Bull, Llywydd y Nuclear Institute, sy'n myfyrio ar y



Mae Llywydd y Nuclear Institute, Adrian Bull, yn paratoi ar gyfer ei sgwrs *Fission Chips* gyda'r YGN a GBE-N

datblygiadau y mae wedi'u gweld yn ystod ei yrfa a'r rhesymau pam ei fod yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â dyfodol y sector. Mae'r drydedd bennod yn cynnwys Charlotte Nichols, yr Aelod Llafur ar gyfer Gogledd Warrington, sy'n trafod rôl niwclear yn ei hetholaeth a'r ffordd y mae agweddau'r cyhoedd wedi newid yn ystod ei chyfnod ym myd gwleidyddiaeth.

Bydd y penodau cyntaf hyn yn cael eu rhyddhau ar draws sianelau cyfryngau cymdeithasol YGN, gan gynnwys LinkedIn, Instagram a TikTok.

## GBE-N yn parhau i greu tîm cyflawni ar gyfer yr adweithyddion



Y ffordd i adeiladu niwclear newydd yn Wylfa; golygfa o'r awyr o'r safle o'r Cemlyn

Yn ystod chwarter cyntaf 2026, mae GBE-N wedi parhau i wneud camau breision i greu'r tîm a fydd yn cyflawni adweithyddion modiwlwr bach cyntaf y DU. Mae hyn yn rhan o weithgarwch masnachol dwys i ymchwilio, caffael a dyrannu contractau gwerth miliynau o bunnoedd i'r gadwyn gyflenwi niwclear, gan gynnwys:

- **Peiriannydd y Perchennog**, a ddyfarnwyd i Litmus Nuclear – Cyd-fenter rhwng Amentum a Cavendish Nuclear, sy'n werth hyd at £300 miliwn
- **Gwasanaethau Amgylcheddol a Chaniatâd ar gyfer Wylfa**, a ddyfarnwyd i WSP a Mott MacDonald, sy'n cynnwys dau gontract sy'n werth hyd at £25 miliwn a £6.6 miliwn yn y drefn honno
- **Peirianneg Sylfaen**, a ddyfarnwyd i Arup, gyda chymorth gan Costain, LDA Design, TUV Sud Nuclear Technologies, Mace a Gleeds, sy'n werth hyd at £19.5 miliwn
- **Rheoli Eiddo a Thir**, a ddyfarnwyd i Fisher German, sy'n werth hyd at £2.55 miliwn.

Mae gwerth cyfunol y contractau hyn yn fwy na £350 miliwn.

# Swyddfa safle a chwrt yn agor yn Oldbury-on-Severn

Mae tîm GBE-N wedi sefydlu swyddfa safle a chwrt ar eu safle yn Oldbury-on-Severn cyn rhaglen o nodweddu safle, y mae'r cynllun ar gyfer y rhaglen honno wedi derbyn caniatâd cynllunio yn ddiweddar gan Gyngor De Swydd Gaerloyw.

Mae'r gwaith yn cynnwys ymchwiliadau daear, edrych ar y ddaeaereg a'r hydroleg ar draws y safle 180 hectar gan ddefnyddio gwahanol ddulliau, er enghraifft drilio tyllau turio a phrofi pwysedd y tir. Ochr yn ochr â hyn, bydd GBE-N yn cloddio rhai pyllau prawf er mwyn deall yr archeoleg ar draws y safle.

Mae gan safle Oldbury, a gafaelwyd yr un pryd â safle Wylfa gan Horizon Nuclear Power, botensial aruthrol ar gyfer datblygiad niwclear newydd. Mae ehangu ein dealltwriaeth o'r safle drwy waith nodweddu yn rhan bwysig o rôl GBE-N yn hyrwyddo Oldbury ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, ym mis Chwefror cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fframwaith Niwclear Uwch, a fydd yn cefnogi gwaith i ddatblygu, masnacheiddio a defnyddio prosiectau niwclear arloesol cymwys yn system ynni y DU.

Mae GBE-N yn cefnogi'r Fframwaith drwy asesu cynigion wrth iddynt gael eu cyflwyno, ac ymgysylltu, drwy'r llywodraeth, gyda darpar ddatblygwyr sy'n ystyried Oldbury fel rhan o'u ceisiadau.

Mae gwybodaeth bellach ar gael i ddarpar ddatblygwyr ar [wefan.gov.uk](http://wefan.gov.uk).



*Uchod: Swyddfa a chyfansoddyn newydd GBE-N ar ei safle yn Oldbury-on-Severn. Isod: AS Yate a Thornbury, Claire Young, yw'r ymwelydd cyntaf wrth iddi gael ei chroesawu gan y Prif Swyddog Gweithredol Simon Roddy am daith o amgylch y safle.*



## Bwrsariaethau a ddyfarnwyd ar gyfer ymchwil Newydd

Mae Prifysgol Bangor a Chwmni Eginio, mewn partneriaeth â GBE-N, wedi cyhoeddi enwau'r rhai fydd yn derbyn Bwrsariaethau 2026, sy'n cefnogi gwaith ymchwil arloesol sy'n archwilio perthynas Gogledd Cymru ag ynni niwclear.

Mae cyfanswm o £10,000 yn cael ei gynnig gan Gwmni Eginio a llwyddwyd i ddenu cynigion cystadleuol o ansawdd uchel gan gydweithwyr a myfyrwyr ar draws y Brifysgol. Aeth panel ac arno gynrychiolwyr o Gwmni Eginio, Prifysgol Bangor a GBE-N ati i gynnal proses ddethol drylwyr, a chafodd pedwar project eu dewis a fydd yn ymchwilio i berthynas Gogledd Cymru ag ynni niwclear yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Mae rhestr lawn o'r prosiectau llwyddiannus ar gael yn.

## GBE-N yn Sicrhau Trwydded i Gynhyrchu

Yn gynharach ym mis Mawrth, llwyddodd GBE-N i sicrhau Trwydded Cynhyrchu Trydan gan Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem), a oedd yn cynrychioli carreg filltir yn eu huchelgais i gyflawni adweithyddion modiwlwr bach cyntaf Ewrop.

Mae sicrhau'r drwydded hon gan Ofgem yn rhoi'r awdurdod i GBE-N gynhyrchu trydan yn y DU, a fydd yn darparu pŵer glân, dibynadwy i gartrefi, busnesau a chymunedau am ddegawdau i ddod.

Mae sicrhau trwydded gynhyrchu yn un o'r cyntaf mewn cadwyn o gymeradwyaethau sydd eu hangen i adeiladu a gweithredu seilwaith pŵer yn y DU. Mae derbyn yr ardystiad hwn yn golygu bod Ofgem yn ystyried GBE-N yn sefydliad cymwys, sy'n cael ei redeg yn dda, sy'n gallu bodloni safonau diogelwch cenedlaethol wrth gynhyrchu trydan.



**Great British**  
ENERGY | NUCLEAR

**Great British Energy – Nuclear**  
Department For Energy Security & Net Zero  
3-8 Whitehall Place  
SW1A 2EG London, United Kingdom  
[enquiries@greatbritishnuclear.uk](mailto:enquiries@greatbritishnuclear.uk)